Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Georwystro (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2019**
DYDDIAD	**20 Mawrth 2019**
GAN	**Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

Rheoliadau Georwystro (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019")

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys

.

- Rheoliad (EU) 2018/302 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 28 Chwefror sy'n mynd i'r afael ag achosion na ellir eu cyfiawnhau o georwystro ac â mathau eraill o wahaniaethu ar sail cenedligrwydd neu fan preswylio cwsmeriaid neu ar sail lleoliad eu sefydliad o fewn y farchnad fewnol, ac sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 2006/2004 ac (EU) Rhif 2017/2394 a Chyfarwyddeb 2009/22/EC.

Deddfwriaeth Ddomestig y DU

- Rheoliad Georwystro (Gorfodi) 2018

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru
Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Diben y diwygiadau
Mae Rheoliadau 2019 yn dirymu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a deddfwriaeth ddomestig sy'n bodoli eisoes ac sy'n ffurfio cyfraith y DU ar Georwystro.

Os na cheir cytundeb, ni fydd gan fersiwn y DU o'r Rheoliad Georwystro effaith bellach yng nghyfraith y DU. Bydd Rheoliad gwreiddiol yr UE yn parhau'n gymwys i fusnesau'r DU a fydd yn gweithredu yn yr UE, ac i bob busnes arall o'r tu allan i'r UE a fydd yn gwerthu nwyddau a gwasanaethau i mewn i'r farchnad sengl.

Ar ôl i'r Rheoliad Georwystro gael ei ddiddymu yn y DU, ni fyddai masnachwyr o'r DU, yr UE a thrydydd gwledydd yn cael eu gwahardd rhag gwahaniaethu rhwng cwsmeriaid yr UE a chwsmeriaid y DU.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/nDmWcvUE

Pam y rhoddwyd cydsyniad
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.